COFNODION CYNGOR BRO LLANGWM A DINMAEL 27.01.2021

1. PRESENNOL – Sioned Jones, Gwyndaf Jones, Awel Hughes, Gwynfryn Jones, Llyr Jones, Gwyn Davies (Cadeirydd), Carwyn Edwards, Cynghorydd Peter Lewis. Rhian Ellis (Clerc)

   YMDDIHEURIADAU – Glennydd Evans

2. DATGAN BUDDIANNAU – Gwynfryn Jones yn ddatgan diddordeb ym mwynt 5
3. COFNODION 25.11.2020 a 01.12.2021 Cynigwyd yn gywir gan Sioned Jones ac eilwyd gan Gwyndaf Jones.
4. MATERION YN CODI O'R COFNODION – Penderfynwyd gofyn I Mr Aeryn Jones a Sioned Jones a fuasai yn fodlon fod yng ngofal plannu blodau yn Dinmael ac I Paul Yaxley fod yng ngofal rhoi blodau yn Llangwm, Cytunwyd I gyfrannu £200 i'r ddwy ardal.

   Mae'r sgips wedi eu archebu I fod yn Llangwm a Dinmael diwedd Mis Ionawr.

5. CYLLIDEB – Gofynwyd am £4200 o precept eleni. Mae'r clerc wedi rhoi cais am ad-daliad TAW o £258 am y 3 mlynedd diwethaf.
6. TALIADAU - Cytunwyd i dalu y canlynol

| | | |
|---|---|---|
| Rhydian Morris | s137 | £420 |
| I N Ferguson | s137 | £66.79 |
| Gwynfryn Jones | s150 | £510 |
| Llen y Llannau | s137 | £50 |
| Eisteddfod yr Urdd | s137 | £200 |

7. NEUADD FACH - Dim i'w adrodd ar hyn o bryd.
8. CAEAU CHWARAE - Adroddodd Peter Lewis fod torriadau ar y gweill a bod y Sir ddim am gymeryd y cyfrifoldeb o edrych ar ol y Cae Chwarae yn Llangwm. Mae'r sefyllfa yn un gymleth ond trafodwyd gyda amryw o gwestiynau yn cael ei ofyn ynglyn a insiwrans, 'maintenance', liability, torri gwair. Penderfynwyd bod Peter Lewis yn adrodd yn i'r Cyfarfod Sir ac yn adrodd yn ol I ni,

   Awel I gario ymlaen I fynd am Grant o'r melinau gwynt.

9. CYNLLUNIO – Dim
10. GOHEBIAETH – Derbyniwyd Llythyr gan Eisteddfod yr Urdd yn gofyn am gyfraniad, penderfynwyd rhoi £200.

    Llythyr Dawns I Bawb yn gofyn am gyfraniad ariannol – penderfynwyd nad ydym am roi ond os y byddant yn dod I'r ardal yna y byddem yn barod I dalu costau trafeilio iddynt.

    LLythyr Llen y Llannau yn gofyn am gyfraniad, penderfynwyd rhoi £50

11. UNRHYW FATER ARALL

a. Neges gan Bethan Smallwood yn nodi bod y cael chwarae yn beryg gan bod dan draed yn slip oherwydd y gwyrddni. – y clerc I gysylltu gyda'r sir I nodi hyn.
b. Nododd Cynghorydd Peter Lewis bod codiad o 2.9% yn nhreth y cyngor eleni, penderfynwyd I Peter Lewis fynd yn ol a deud bod costau byw wedi codi eleni ac i'r cyngor gymeryd hyn i ystyriaeth.
c. Dywedodd Gwyn nad oedd yn hapus gyda'r system gritio ar ol iddynt symud y gritars I Llanrwst - mae na ardaloedd sydd ddim yn cael yr un gwasanaeth ag o'r blaen.
d. Carwyn yn gofyn am gefnogaeth y Cyngor I gael ysgrifennu ebost I'r cyngor I gael rheolaeth ar 'gynlluniau adeiladu' Tai Haf a'r effaith mae yn ei gael ar y gymuned. Penderfynwyd bod y pwyllgor yn llwyr cefnogi Carwyn.

DYDDIAD CYFARFOD NESA' AR ZOOM–